

**Ar ddydd Mawrth, 16eg Mehefin 2009 cynhaliwyd Cyfarfod o Gyngor Cymuned Trefeurig yn Neuadd y Penrhyn am 7.00 pm**

**PRESENNOL:** Y Cyng. R Owen (Gadair); D Jones; DR Morgan; Mrs E Davies; Mrs G Price; Mrs K Walker; Trefor Davies; T Lewis a'r cler

- 2518 Derbyniwyd **ymddiheuriadau am absenoldeb** oddi wrth y Cyng. D Sheppard, DM Hughes ac M Evans
- 2519 **Materion Personol:** Dim
- 2520 **Datgan buddiant personol/rhagfarnol:** Datganodd y Cyng. K Walker fuddiant personol ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth ar Gofnod 2534 Cyflog y Clerc (cyswllt teuluol). Datganodd y Cyng. Edwina Davies fuddiant personol o ganlyniad i gyswllt teuluol ac ni chymerodd ran yng Nghofnod 2540 - Cais Cynllunio Rhif A090350.
- 2521 **Cadarnhau'r Cofnodion:** PENDERFYNWYD cadarnhau Cofnodion y Cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19eg Mai 2009 fel cofnod cywir:
- (i) Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- (ii) Y Cyfarfod Busnes
- Trafodwyd y mater canlynol oedd yn codi o'r Cofnodion:-
- Cofnod 2487 - Tir Amwynder, Dôl Helyg:** Adroddodd y cler ar awgrymiadau ar gyfer defnyddio'r tir amwynedd a gyflwynwyd gan y tîrfeidiannwr/datblygwr yr ystâd mewn galwad ffôn ar 20 Mai 2009. PENDERFYNWYD ystyried y mater ymhellach pan fydd y Cyng. D Sheppard, un o drigolion Dôl Helyg, yn bresennol.
- 2522 **Adroddiadau ar Gyfarfodydd a fynychwyd gan Aelodau'n cynrychioli'r Gyngor Cymuned: Cae Chwarae Penbonturhydybeddau:** Roedd y Cyng. Trefor Davies yn falch o adrodd bod sefyllfa ariannol y Pwyllgor, gyda chymorth ychwanegol gan y 'Buffs', yn foddhaol. Bydd gwaith adfer a chynnal a chadw, a'r archwiliad annibynnol blynyddol o'r offer yn cymryd lle'n fuan a chynhelir Diwrnod Hwyl i godi arian ar 18fed Gorffennaf.

**Derbyniwyd ac ystyriwyd y dogfennau/ohebiaeth ganlynol:-**

- 2523 **Gwahoddiad i'r Cadeirydd** i Wasanaeth Dinesig ar 14 Mehefin 2009. Adroddodd y Cadeirydd nad oedd yn rhydd i'w fynychu.
- 2524 **Archwiliad Blynyddol Caeau Chwarae:** Manylion trefniadau archwilio. PENDERFYNWYD eu nodi. Mae PATRASA a Cae Chwarae Penbont wedi eu hysbysu.
- 2525 **Airtricity - Fferm Wynt Nant y Moch:** Manylion arddangosiadau gan gynnwys Dydd Iau, 18fed Mehefin yn Neuadd y Penrhyn 2pm - 8pm. PENDERFYNWYD eu nodi.
- 2526 **Hysbysiad ynghylch Gweithdai'r Mesur Rheoli Llifogydd a Dŵr:** PENDERFYNWYD ei nodi.
- 2527 **Cynllun Strategol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru 2010-2015:** PENDERFYNWYD gofyn i'r Cyng. D M Hughes ei ddarllen ac adrodd arno.
- 2528 **Cyngor ar fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg:** PENDERFYNWYD pasio'r ddogfen i'r Cyng. R Owen ei ddarllen ac i ystyried y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.
- 2529 **CCB a Chynhadledd Un Llais Cymru 10 Hydref 2009:** PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. R Owen (Cadeirydd) a Trefor Davies (Is-gadeirydd) i fynychu.
- 2530 **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt - Prosiect Pumlumon:** Gwahoddiad i nodi prosiectau cymunedol all helpu i wella'r amgylchedd lleol. PENDERFYNWYD ystyried y mater ymhellach.

**MATERION ARIANNOL**

- 2531 **Cronfa 'The Secret Millionaire':** Hysbysiad gan Un Llais Cymru y gall Cyngorau Tref a Chymuned wneud cais am grantiau o'r gronfa hon. PENDERFYNWYD gwneud ymholiadau pellach.
- 2532 **Dogfen ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005:** PENDERFYNWYD rhoi copi o'r ddogfen i'r Cyng. R Owen ei ddarllen ac adrodd arni yn y cyfarfod nesaf.
- 2533 **Archwiliad Blynyddol 2008/09:** Aethpwyd â'r holl ddogfennau angenrheidiol i'r Archwiliwr Mewnol ar 26ain Mai ac nid ydynt wedi'u dychwelyd eto.
- 2534 **Cyflog y Clerc:** Ystyriwyd y ddogfen sy'n gosod y Cyflog Cenedlaethol Terfynol ar gyfer Clercod Cyngorau Lleol ar gyfer 2008/09. PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion a thalu tâl i'r cler yn ôl yr awr ar bwynt 20 am bum awr yr wythnos, wedi'i ôl-ddyddio i 1af Ebrill 2008. Cytunwyd hefyd i dderbyn y graddfeydd a

argymhellir ar gyfer lwfansau car sy'n daladwy i glercod Cyngor o 1af Ebrill 2008.  
(Datganodd y Cyng. K Walker fuddiant ac ni chymerodd ran yn y trafodaethau hyn).

**Ystyriwyd a chytunwyd i dalu'r anfonebau canlynol**, Awdurdodwyd y clerch i gael y

llofnodion angenrheidiol pan fydd y llyfr sieciau wedi'i ddychwelyd gan yr archwiliwr:

**2535 Un Llais Cymru – Tâl Cynhadledd 2009 x 2 aelod: £120**

**2536 L Griffiths – Cyfieithiadau Mai 2009: £66.27**

**2537 P Walker - Cyflog Ebrill - Mehefin 2009: £617.24 + ôl-daliadau Ebrill 2008-  
Mawrth2009 - £66.04:**

**Cyfanswm: £683.28**

**2538 P Walker - Ad-dalu cost ail-osod y modem bach ar Liniadur y Cyngor a brynwyd  
11/06/09: £17.99**

**2539 Bil BT hyd 11 Mehefin 2009: Galwadau, rhent a thaliadau £110+TAW £15.83:  
Cyfanswm £125.83**

**Ystyriwyd y cais cynllunio canlynol:**

**2540 A090350** Tir ger Cwm Pennant, Penrhyncoch – annedd: Prin yw'r manylion ar y cynllun ond ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i'r cais. Gwnaed cais i gymryd gofal wrth leoli'r mynediad i'r llain.

**2541 Cynhelir y Cyfarfod nesaf yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00 pm ar ddydd Mawrth, 28ain Gorffennaf 2009** – wythnos yn hwyrach nag arfer i osgoi gwrthdaro gyda'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

**2542 Cytunwyd i gynnwys yr eitemau canlynol ar yr agenda nesaf:**

- Goleuadau Rhybudd ar gyfer yr Ysgol ger Swyddfa Bost Penrhyncoch ddim yn gweithio o hyd.

- Cais gan drigolion Tan y Berth i droi'r ardal amwynedd segur ar y safle yn ardal Parcio ychwanegol.

- Llythyr llongyfarch i'w anfon i'r Cyfarwyddwr G Koppel ar ei lwyddiant gyda'r ffilm leol

“Sleep Furiously”

Ymunodd un o'r trigolion lleol, Dr C King, â'r Cyfarfod am 8.20 pm, Ar wahoddiad y Cadeirydd, trafododd Ddiogelwch Defnyddio'r Rhyngwrwyd, pwnc mae'n arbenigo ynddo. Os gwelir bod digon o ddiddordeb yn lleol, mae'n fodlon cynnal cyfarfod i esbonio nifer o gamau y gellir eu cymryd i atgyfnerthu diogelwch y rhyngwrwyd. Diolchwyd i Dr King am ei gynnig.

Daeth y Cyfarfod i ben am 8.30 pm.